**Costau'r bwrdd**
22 Mai 2014

Yn dilyn fy e-bost dyddiedig 1 Mai 2014, rwyf bellach mewn sefyllfa i ymateb i gwestiynau 4 a 6 o'ch cais am wybodaeth dyddiedig 26 Ebrill 2014. Roedd fy e-bost dyddiedig 1 Mai 2014 yn gofyn am eglurhad o gwestiynau 1, 2, 3 a 5 o'ch cais, ac o ganlyniad i adran 1(3) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, nid oes rheidrwydd arnaf ymateb i'r cwestiynau hynny tan i mi dderbyn eglurhad o'r fath.

Mae fy ymateb i gwestiynau 4 a 6 o'ch cais fel a ganlyn:

4. A oes unrhyw gostau llety wedi bod ar gyfer aelodau eraill nad ydynt yn aelodau o'r bwrdd sy'n mynychu cyfarfodydd?

Oes.

6. A yw aelodau'r bwrdd yn derbyn lwfans yn ogystal â, neu yn lle, treuliau teithio. Os felly, faint?

Nid yw aelodau'r bwrdd yn derbyn lwfans sy'n gysylltiedig â theithio yn ogystal â, neu yn lle, treuliau teithio.

Nid wyf wedi defnyddio unrhyw esemptiadau. Fodd bynnag, os bydd gennych unrhyw gŵyn am y ffordd yr wyf wedi ymdrin â'ch cais, anfonwch e-bost ataf neu ysgrifennwch ataf.

Mae croeso i chi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau.

Yn gywir

Ian Phillips